# Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr II

Antur Teifi
Parc Busnes Antur Teifi
Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Gorllewin Cymru
Ffôn: 01239 710238
SA38 9DB
E-bost
asadler@anturteifi.org.uk

**Croeso i gylchlythyr cyntaf Cymal II y Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr. Rydym am gyhoeddi cylchlythyr chwarterol ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a chrefftau yng Ngheredigion. Bwriadwn adeiladu ar lwyddiant Cymal I Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion gan annog a chefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy y sector cynhyrchu yng Ngheredigion - bwyd, crefftau a diwylliant lleol — a'i helpu i ganfod marchnadoedd newydd. Mae croeso i chi roi'r cylchlythyr hwn i unrhyw un a allay fod â diddordeb yn y maes. Os hoffech gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio, cysylltwch â'r tîm yn y cyfeiriad uchod.**

Rhifyn 1

Rhagfyr 2005

## TYFU'CH BUSNES

Daeth nifer o fusnesau lleol sy'n gweithio yn y diwydiant croesogarwch ynghyd yng Ngholeg Ceredigion. Cafwyd seminar oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defenyddio cynnyrch lleol. Trefnwyd yr achlysur ar y cyd â Medrwn, Menter Ansawdd Twristiaeth Ceredigion a'r Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr.

Cafwyd arddangosfa goginio gan ddarlithwyr croesogarwch Coleg Ceredigion gan ddefnyddio bwydydd ffres gan nifer o gynhyrchwyr lleol. Yna, cafwyd cyflwyniad marchnata gan Gareth John, a sgwrs fer am ei waith fel Prif Gogydd Gwesty Wynnstay, Machynlleth. Esboniodd sut y

llwyddodd i sicrhau cynnydd o dros 50% mewn gwerthiant bwyd dros y pum mlynedd diwethaf trwy gynnig cynnyrch Cymreig o safon uchel ar ei fwydlen. Yn ei farn ef, Cymru yw'r 'pantri naturiol gorau yn y byd' ac anogodd aelodau'r diwydiant croesogarwch i ddefnyddio cynnyrch Cymru yn eu busnesau.

Nawr rydym yn datblygu set o weithdai i'w cyflwyno yng Ngholeg Ceredigion, gyda'r nod o ddangos y ffyrdd gorau o ddefnyddio cynnyrch lleol mewn ffordd arloesol. Os hoffech ddod, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad uchod.

### PYTIAU NEWYDDION

- Llongyfarchiadau i Gaws Teifi. Enillodd eu caws Celtic Promise y Brif Bencampwriaeth yng Ngwobrau Caws Prydain
- Mae deiet plant dan 11 yn y newyddion y dyddiau hyn. Ewch i wefan newydd Sefydliad Maetheg Prydain www.foodafactoflife.org.uk
- Yn ôl yr Athro Robert Pickard o Sefydliad Maetheg Prydain a fu'n siarad mewn cynhadledd 'Food First' yng Nghaerfyrddin, er bod byrgyrs yn cael eu cyfrif yn 'sothach', gallwch wneud byrgyrs maethlon iawn os defnyddiwch gynhwysion iawn a'u coginio mewn ffordd iachus.

## CYNHYRCHWYR CEREDIGION YN PROFI LLWYDDIANT YNG NGWOBRAU'R GWIR FLAS

Mae Cynhyrchwyr Ceredigion wedi disgleirio eleni eto yng Ngwobrau'r Gwir Flas. Ymhlith y rhai a wobrwywyd mae'r Cambrian Hills Company a gafodd wobr aur am eu Cig Hwyad Muscovy yn yr adran Gwir Flas Organig. Cafodd cwmni dŵr Tŷ Nant wobr aur am eu dŵr TAU yn nosbarth y Gwneuthurwr Mawr ac enillodd y Penlon Cottage Brewery wobr aur am eu Lambs Gold Light Ale yn nosbarth y Gwneuthurwr Bach.

Cafodd Trethowan's Dairy wobr efydd yn nosbarth Cynhyrchydd y Gwir Flas am eu caws Gorwydd Caerphilly ac enillodd The Hive on the Quay wobr efydd am eu Iogwrt Iâ Oren a Mêl.

Cafodd Cnwc Goats, W B Evans, Nantgwynfaen Organic Farm, Penlon Cottage Dairy, a Nanclyd Organics ganmoliaeth uchel hefyd yn y gwobrau.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl gynhyrchwyr o Geredigion a gymerodd ran yn y gwobrau.

## BWYD A CHREFFTAU'R NADOLIG YN LLANERCHAERON

Cynhaliwyd pedwaredd Ffair Fwyd a Chrefftau flynyddol Llanerchaeron ar 10 ac 11 Rhagfyr gan ddenu dros 3000 o ymwelwyr dros y ddau ddiwrnod. Roedd nifer o gynhyrchwyr lleol ymhlith y 60 o stondinau bwyd a chrefftau. Roedd Tologa Orchards, sy'n gwneud Seidr, Gellygwin a Sudd Afal Cymreig, yn cynnig seidr brwd twym ac, os oeddech yn ddigon dewr (ar ddiwrnod oer o aeaf) roedd Aeron Jersey yn brysur yn gwerthu Hufen Iâ Moethus.

Caws o laeth dafad oedd ar stondin Caws Celtica ac roedd Fferm Blaencamel yn gwerthu llysiau organig tymhorol. Roedd yno nifer o gynhyrchwyr bwyd lleol eraill hefyd ynghyd â chynhyrchwyr gwahanol grefftau o Orllewin Cymru.

Cafodd yr ymwelwyr iau gyfle i gwrdd â Siôn Corn a'i weision, Super Ted, Sali Mali a Sam Tân yng Ngroto Nadolig S4C.

Mwynhawyd penwythnos llwyddiannus iawn a ddaeth i ben gydag arddangosfa gan Wyl Cobiau Aberaeron. Trefnwyd y Ffair Bwyd a Chrefftau gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda chymorth Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion.

### SIOPA NADOLIG MUNUD

Os hoffech dwrci fferm ffres, beth am roi galwad i un o'n cynhyrchwyr lleol: -

Ffoniwch 'Dafydd, Farmbox', Bow Street ar 01970 828375

Rhif ffôn Russell o RGE Gibbons, Tregaron, yw 01570 493344



Mae digon o lysiau lleol i'w cael yn eich marchnad ffermwyr leol. Beth am brofi rhywbeth gwahanol dros y Nadolig? Beth am gig mochyn gwyllt? Ffoniwch Huw ar 0101239 810740.

## *Siop Fferm Llwynhelyg yn Enillydd Rhanbarth De a Gorllewin Cymru, yng Nghystadleuaeth Manwerthwr Gwledig Gorau'r DU*

Llongyfarchiadau i Jenny a Teifi Davies o Siop Fferm Llwynhelyg. Cawsant eu dewis yn enillwyr rhanbarth De a Gorllewin Cymru yng Nghystadleuaeth Manwerthwr Gorau'r DU a drefnir gan y Gynghrair Cefn Gwlad mewn cydweithrediad â Phythefnos Bwyd Prydain a chylchgrawn y Farmers Weekly. Roeddent ymhlith 13 o enillwyr rhanbarthol a ddewiswyd o blith 600 o ymgeiswyr. Dewisir enillydd y gystadleuaeth gan banel o feirniaid o fri a chyhoeddir y canlyniad tua dechrau 2006. Yn ogystal â'u llwyddiant yng Nghystadleuaeth y Manwerthwr Gwledig Gorau, meant wedi ennill gwobr y Proseswyr Bwyd gorau ar y Fferm yng Ngwobrau Busnes Ceredigion. Hefyd, roedd Jenny yn rownd derfynol cystadleuaeth yr NFU i ferched sy'n ffermio.

## DYMA'R TÎM

Ymunodd Lois Gibbon ag Antur Teifi yn 2002 ar ôl astudio am radd mewn 'Rheoli Gwestyau ac Arlwyo' a gweithio yn y diwydiant croesogarwch yng Nghaerdydd. Treuliodd ddwy flynedd fel Rheolwr Prosiect Agri-net Works o dan y rhaglen Interreg ac erbyn hyn hi sy'n goruchwylio ail gymal prosiect y Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr.

Os hoffech gysylltu â Lois i drafod unrhyw ddatblygiadau yn y sector bwyd a chrefftau neu i sôn am y prosiect, mae croeso i chi ei ffonio ar 01239 71023, neu e-bostio lgibbon@anturteifi.org.uk

Cefnogir Lois yn y prosiect gan Anna Sadler, Cydgysylltydd Digwyddiadau a Marchnata a Rebecca Herbert, Gweinyddwr y Prosiect.

Bu Anna gydag Antur Teifi ers 2003 ond newydd ymuno â'r prosiect hwn y mae. Ar hyn o bryd mae wrthi'n datblygu gwefan fwyd newydd ar gyfer Ceredigion. Hoffai glywed oddi wrth unrhyw un sydd â ryseitiau sy'n defnyddio'u cynnyrch eu hunain neu gynnyrch lleol. Os oes gennych ryseitiau ar gyfer y wefan neu os hoffech gynnig syniadau ar gyfer y cylchlythyr nesaf, gallwch ffonio Anna ar 01239 710238 neu e-bostio asadler@anturteifi.org.uk.

Bu Rebecca yn gweithio i Antur Teifi ers mis Ebrill 2005 ac mae hithau newydd ymuno â'r prosiect. Os yw'ch manylion cysylltu wedi newid neu os ydych wedi newid y math o beth rydych yn ei gynhyrchu, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i Rebecca dros y ffôn neu trwy e-bostio rherbert@anturteifi.org.uk. Byddai Rebecca yn falch o glywed wrth aelodau o Gynhyrchwyr Crefftau Ceredigion a hoffai gael eu cynnwys yn ein cronfa ddata neu sydd â gwybodaeth i'w chynnwys yn ein cylchlythyr nesaf ym mis Mawrth.

**Dyddiadau i'w Cofio 2005/2006**

| | Rhag | Ion | Chwef | Mawrch |
|---|---|---|---|---|
| Gwyl Bwyd a Chrefftau Aberystwyth | 16 | | | |
| Marchnadoedd Ffermwyr Aberystwyth | | 7 & 21 | 4 & 18 | 4 & 18 |
| Marchnadoedd Ffermwyr Llambed | | 6 & 20 | 3 & 17 | 3, 17 & 31 |
| Sioe Deithiol Cwrdd â'r Prynwr, Llety Parc, Aberystwyth | | 25 (2-7pm) | | |